

Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol

Canllawiau

Ionawr 2021



Mae canllawiau'r Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar gael mewn print bras a hawdd ei ddeall. Byddwn yn darparu gwybodaeth mewn braille, sain ac Iaith Arwyddion Prydain a byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd heblaw Cymraeg neu Saesneg ar gais.

Os oes gennych unrhyw anghenion mynediad a'ch bod yn ystyried gwneud cais, gallwn helpu i sicrhau eich bod yn cael eich cefnogi yn ystod y broses gwneud cais. Er enghraifft, efallai fod gennych gyflwr sy'n ei gwneud hi'n anodd i chi gyfleu eich syniadau am brosiect ar eich ffurflen gais. E-bostiwch ni yn info@wai.org.uk i drafod sut y gallwn helpu.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu polisi cyfle cyfartal.

Beth i'w wneud os na allwch dderbyn arian gan y Loteri Genedlaethol

Os na allwch dderbyn arian loteri am ba reswm bynnag, lanlwythwch lythyr gyda'ch cais ar-lein yn egluro pam. Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn ceisio ariannu eich prosiect drwy ffynonellau eraill.

Cynnwys

Diben y gronfa	4
Pwy sy'n cael ymgeisio?	4
Faint o arian sydd ar gael?	5
Blaenoriaethau'r gronfa	5
Pryd i wneud cais:	6
Beth fydd yn digwydd nesaf?	6
Y broses ymgeisio	6
Cysylltwch â ni	8

Ers mis Mawrth 2020, bu ein Cronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar saib, ac felly hefyd ein cronfa beilot, Cysylltu: Rhwydweithiau Ewropeaidd a Datblygu'r Farchnad.

Gan ymateb i'r cyd-destun byd-eang wrth i hwnnw newid, ac i'r trafodaethau niferus rydyn ni wedi gwrandao arnyn nhw a chymryd rhan ynddyn nhw, byddwn yn adolygu'r naill gronfa a'r llall gyda'r nod o agor y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar ei newydd wedd ym mis Ebrill 2021.

Cyn gwneud hyn, byddwn yn agor y Gronfa Cyfleoedd Rhyngwladol ar raddfa lai ar **27 Ionawr 2021**, a hynny ar gyfer gweithgareddau sydd â chysylltiadau rhyngwladol. Darllenwch y canllawiau diwygiedig a **sywlch ar yr unig ddyddiad cau ar gyfer y cyfnod hwn, sef dydd Iau 18 Chwefror 2021**.

Diben y gronfa

- Cefnogi'r broses o ddatblygu syniadau, cydweithio a rhwydweithiau rhwng gweithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau celfyddydol yng Nghymru a phartneriaid rhyngwladol.
- Rhannu profiadau a sgiliau drwy'r celfyddydau mewn cyd-destun byd-eang.
- Codi proffil Cymru a'i chysylltiadau drwy'r celfyddydau yn fyd-eang.

Yn sgil y cyfyngiadau a'r ansicrwydd presennol sy'n gysylltiedig â theithio yn rhyngwladol, bydd y gronfa yn bennaf yn cefnogi'r gwaith o ddatblygu prosiectau sy'n defnyddio platfformau ac adnoddau digidol. Gellir cynnwys teithio corfforol ochr yn ochr â gweithgareddau digidol, ond dylai fod gennych gynlluniau wrth gefn rhag ofn na fydd hyn yn bosibl. Ar ôl dyfarnu'r arian, byddwn yn cefnogi pob ymgeisydd llwyddiannus i adolygu a datblygu ymhellach ei gynllun ar gyfer y prosiect, ei gyllideb fanwl, a'i gynllun wrth gefn, os bydd angen.

Pwy sy'n cael ymgeisio?

Sefydliadau celfyddydol a gweithwyr creadigol proffesiynol sydd wedi'u lleoli yng Nghymru.

Croesewir ceisiadau gan gydweithfeydd anffurfiol neu ffurfiol o artistiaid, yn ogystal â chan sefydliadau celfyddydol sy'n cefnogi nifer o weithwyr creadigol proffesiynol o Gymru drwy'r prosiect. Bydd angen i un partner sydd wedi'i leoli yng Nghymru gael ei enwi yn y cais, gan ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol a'r cyfrifoldeb dros adrodd os dyfernir arian.

Gweler y nodiadau sy'n rhoi gwybodaeth fanwl am y meini prawf cymhwysedd a'r wybodaeth y mae ei hangen am y banc.

Faint o arian sydd ar gael?

Cyfanswm cyllideb y gronfa yw £50,000.

Yr uchafswm y gellir ei roi drwy bob dyfarniad yw £5,000.

Disgwyliwn i bob partner a chyfranogwr gael ei dalu'n deg am gymryd rhan yn y prosiect. Gellir cynnwys ffioedd yn y gyllideb ar gyfer cyfranogwyr yng Nghymru nad ydyn nhw'n cael cyflog am ymwneud â'r prosiect.

Blaenoriaethau'r gronfa

Yn y rownd hon o'r gronfa (dyddiad cau, dydd Iau 18 Chwefror 2021), byddwn yn blaenoriaethu buddsoddiad yn y gweithgareddau sy'n cyfrannu at y canlyniadau canlynol, yn unol â'n Strategaeth Ryngwladol, Celf Cymru: Yn Bont o'n Bro i'n Byd:

- datblygu a phrofi syniadau newydd a ffyrdd o gydweithio â phartner(iaid) rhyngwladol, gyda golwg ar greu partneriaethau mwy hirdymor
- gosod y sylfeini gyda phartneriaid rhyngwladol ar gyfer creu a chyflwyno gwaith artistig yn y dyfodol sy'n fyd-eang ei fydolwg
- rhannu gwersi a ddysgir, cysylltiadau a phrofiadau
- mwy o gyfranogiad mewn rhwydweithiau rhyngwladol, yn ffurfiol ac yn anffurfiol

Rydyn ni'n awyddus i gefnogi cydbwysedd o weithwyr creadigol proffesiynol a sefydliadau celfyddydol. Wrth roi cefnogaeth, byddwn yn blaenoriaethau'r rheini nad ydyn nhw'n cael cyllid rheolaidd gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Beth na allwn ni ei gefnogi:

- Gweithgaredd nad yw'n cynnwys partner rhyngwladol.

Gall partner rhyngwladol fod yn:

- rhywun sy'n cydweithio yn y broses creadigol
- rhwydwaith neu ddigwyddiad, a'r gweithgaredd yw mynychu rhwydwaith neu ddigwyddiad
- Gweithgaredd sy'n dibynnu'n llwyr ar deithio corfforol a lle nad yw opsiwn digidol yn bosibl
- Astudio neu hyfforddiant ffurfiol
- Mynychu digwyddiadau cystadleuol neu gyfranogi mewn digwyddiadau cystadleuol
- Gweithgaredd sydd eisoes wedi'i gynnal

Pryd i wneud cais:

Dim ond un dyddiad cau a fydd ar gyfer y gronfa hon:

Dydd Iau 18 Chwefror 2021

Bydd modd derbyn ceisiadau o ddydd 27 Ionawr 2021.

Beth fydd yn digwydd nesaf?

Byddwch yn clywed am y penderfyniad erbyn dydd Gwener 26 Chwefror 2021 fan bellaf.

Os bydd eich cais yn llwyddiannus, byddwn yn eich cefnogi i adolygu a datblygu ymhellach eich cynllun ar gyfer y prosiect, eich cyllideb fanwl, a'ch cynllun wrth gefn, os bydd angen.

Byddwn hefyd yn gofyn ichi ateb rhai cwestiynau am y prosiect 30 diwrnod ar ôl iddo ddod i ben. Gellir cyflwyno'r atebion hyn drwy destun, fideo neu sain.

Byddwn hefyd yn gofyn ichi anfon diweddariad ymhen blwyddyn.

Bydd eich adborth a'ch profiadau'n hanfodol wrth inni ddatblygu ein dull o roi cefnogaeth yn y dyfodol.

Y broses ymgeisio

Cyn paratoi cais, mae croeso ichi gysylltu â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru i drafod unrhyw syniadau neu gwestiynau, neu i drafod y costau mynediad i chi neu unrhyw un sy'n ymwneud yn uniongyrchol â'r gwaith o ddatblygu a darparu eich prosiect. Rydyn ni yma i'ch helpu drwy'r broses.

Bydd angen i chi gwblhau a chyflwyno'r dogfennau canlynol trwy e-bost:

1. Taflen glawr y gellir ei lawrlwytho o wai.org.uk/funding

Bydd hyn yn rhoi'r wybodaeth sylfaenol amdanoch chi a'ch prosiect.

2. Eich atebion i'r cwestiynau isod. Bydd hyn yn ein helpu i ddeall eich prosiect ac i'n helpu i asesu ceisiadau.

Fe allwch chi uwchlwytho eich atebion fel un ddogfen, neu fel cyfres o ddogfennau. Cofiwch gynnwys yr holl wybodaeth y mae ei hangen arnon ni.

- Beth fyddwch chi'n ei wneud a pham fod hyn yn bwysig i'ch ymarfer?

- Beth rydych chi'n gobeithio'i gyflawni neu'i ddysgu drwy weithio gyda'ch partner(iaid) rhyngwladol neu drwy gymryd rhan yn y digwyddiad neu'r rhwydwaith rhyngwladol dan sylw?
- Os byddwch chi'n cefnogi grŵp o ymarferwyr creadigol unigol o Gymru, sut byddwch chi'n dewis y cyfranogwyr a sut rydych chi'n bwriadu eu cefnogi nhw?

3. Uwchlwythwch gyllideb sy'n dangos

a. holl gostau eich prosiect.

Gallai'r costau gynnwys:

- Ffioedd artistiaid
- Costau aelodaeth a/neu gofrestru
- Deunyddiau
- Costau teithio
- Cyfieithu

Ac

b. incwm y prosiect, naill ai ar ffurf arian neu gyfraniadau nad ydyn nhw'n ariannol.

Dydyn ni heb osod uchafswm ar gyfer canran y gefnogaeth a roddir drwy'r gronfa hon. Fodd bynnag, rydyn ni'n disgwyl gweld rhywfaint o incwm yn eich cyllideb. Gallai hwn fod yn incwm drwy'r partner rhyngwladol neu o'ch cyllid eich hun, neu drwy ddyfarniadau eraill neu ostyngiadau mewn ffioedd aelodaeth neu gofrestru.

4. Uwchlwythwch lythyr byr neu e-bost gan eich partneriaid rhyngwladol sy'n dangos eu hymrwymiad i weithio gyda chi.

Os ydych chi'n gwneud cais i gymryd rhan mewn digwyddiad neu rwydwaith, mae dolen i'r wefan berthnasol yn ddigon yn lle hynny.

5. Dolen i wybodaeth ar-lein am eich gwaith neu CV

Os bydd angen cymorth arnoch chi i gael mynediad, cysylltwch â thîm Celfyddydau Rhyngwladol Cymru a fydd yn gallu eich helpu drwy'r broses.

Cysylltwch â ni



+44 29 2044 1300



info@wai.org.uk



Celfyddydau Rhyngwladol Cymru



[@WAICymruWales](https://twitter.com/WAICymruWales)